Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Arolwg Adborth Cwsmeriaid Iechyd Galwedigaethol a Gwasanaethau Cysylltiedig

Mae'r Fframwaith Iechyd Galwedigaethol yn gytundeb fframwaith cydweithredol gyda nifer o gyflenwyr sydd wedi'u cymeradwyo ymlaen llaw, a all ddarparu ystod eang o wasanaethau iechyd galwedigaethol i awdurdodau contractio ar draws sector cyhoeddus Cymru. Bydd y Fframwaith Iechyd Galwedigaethol (III) yn dod i ben ym mis Ebrill 2027.

Mae tîm Caffael Masnachol yr adran Data a Thechnoleg Digidol (DDaT) yn Llywodraeth Cymru wrthi'n paratoi ar gyfer adnewyddu'r cytundeb fframwaith hwn. Pwrpas yr arolwg hwn yw casglu ymatebion cwsmeriaid i'r Fframwaith Cynhyrchion a Gwasanaethau TG presennol i weld sut mae wedi gweithio o safbwynt cwsmeriaid ac edrych ar unrhyw newidiadau a/neu wasanaethau ychwanegol y dylwn eu hystyried ar gyfer fersiwn nesaf y fframwaith.

Bydd yr arolwg yn helpu Llywodraeth Cymru i lunio'r cytundeb fframwaith newydd a sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y Sector Cyhoeddus. Mae eich barn yn bwysig i ni ac unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi casglu a dadansoddi'ch ymateb, byddwn yn ei ddefnyddio i'n helpu i wneud penderfyniadau.

Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data ar gyfer yr ymchwil. Bydd Tîm Cyflewni Llywodraeth Cymru yn dileu data personol cyn ysgrifennu'r dadansoddiad ac ni ddatgelir unrhyw fanylion personol i bobl eraill yn Lywodraeth Cymru oni bai eich bod yn gofyn i ni wneud hynny.

At ddibenion yr ymchwil hon, yr unig ddata personol y byddwn yn gofyn amdanyn nhw fydd enw, sefydliad, sector a chyfeiriad e-bost cwsmeriaid. Ond mater cwbl wirfoddol yw cymryd rhan ac mae croeso ichi roi'ch atebion yn ddienw os nad ydych am ddatgelu'ch gwybodaeth bersonol.

# HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

## Pa ddata personol a gedwir gennym ac o ble rydym yn cael yr wybodaeth honno?

Diffinnir data personol o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) fel unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson y gellid ei defnyddio i adnabod yr unigolyn hwnnw, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, drwy gyfeirio at ffactor adnabod.

Byddwch wedi derbyn neu gael gwybod am yr arolwg fel a ganlyn:

- Bydd Llywodraeth Cymru wedi anfon dolen yr arolwg atoch dros e-bost. Byddai'ch manylion gennym am i chi gyfrannu at waith fel hwn yn y gorffennol;
- Rydych wedi dilyn dolen i'r arolwg yn y Newyddlen fisol, yr Hyb Wybodaeth neu drwy un o'n sianelau cyfryngau cymdeithasol.

Nid yw'r arolwg yn gofyn i ni gasglu unrhyw wybodaeth bersonol amdanoch. Ond hoffem wybod pa Sefydliadau Sector Cyhoeddus sy'n defnyddio'r fframwaith ac a fyddech am fod yn rhan o'r tîm gwerthuso tendrau.  Nid oes rhaid rhoi manylion cysylltu er mwyn ateb yr arolwg ac os na fyddwch yn rhoi'ch manylion personol, byddwn yn cadw'ch atebion yn gwbl ddienw.

Os byddwch yn dewis rhoi rhagor o ddata bersonol fel rhan o'r arolwg, ni fydd modd eich adnabod trwy'r atebion y byddwch yn eu rhoi. Os byddwch yn gofyn cwestiwn neu'n gwneud cwyn, bydd yr ymchwilydd yn rhoi eich cwestiwn neu eich cwyn i'r swyddog perthnasol ac wedyn yn eu dileu o ddata'r arolwg.

## Beth yw'r sail gyfreithlon dros ddefnyddio'ch data?

Y sail gyfreithlon dros brosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn fater cwbl wirfoddol. Mae arolygon fel hwn yn bwysig i Lywodraeth Cymru i wella'r Fframwaith ar gyfer ei ddefnyddio yn y dyfodol gan y Sector Cyhoeddus.

## Pa mor ddiogel yw eich data personol?

Mae unrhyw wybodaeth bersonol a roddir i Lywodraeth Cymru yn cael ei storio ar serfiwr diogel ac ar gyfer y prosiect hwn, mae ffolder wedi'i chreu a dim ond Tîm Cyflawni Caffael Masnachol sy'n cael mynd iddi. Bydd eich manylion cyswllt, ac unrhyw ddata personol y byddwch yn dewis eu rhoi inni, yn cael eu cadw yn y ffolder gyfyngedig hon.

Wrth gynnal arolygon, mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio rhaglen o'r enw Smart Survey. Rydyn ni wedi gwneud yn siŵr bod Smart Survey yn cydymffurfio â GDPR y DU ac yn bodloni'n disgwyliadau o ran diogelu unrhyw ddata a gesglir trwy'r feddalwedd (e.e. caiff yr holl ddata eu prosesu o fewn gwledydd yr EEA).

## Am ba hyd y byddwn yn cadw eich data personol?

Nid yw'r arolwg yn gofyn ichi roi data personol ond os byddwch chi'n rhoi manylion cysylltu, byddwn yn eu cadw tan y caiff cytundeb y fframwaith newydd ei ddyfarnu.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cadw'r manylion cysylltu sydd ganddi eisoes, fel cofrestru ar GwerthwchiGymru, yn unol â'r Hysbysiadau Preifatrwydd a gyhoeddwyd at y dibenion hynny.

## Hawliau'r unigolyn

O dan GDPR y DU, mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol y byddwch yn ei darparu fel rhan o'r adolygiad hwn. Yn benodol mae gennych yr hawl i wneud y canlynol:

- Gweld copi o'ch data eich hun;
- Gofyn inni gywiro gwallau yn y data hynny;
- Gwrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data (o dan amgylchiadau penodol);
- Gofyn bod eich data yn cael ei 'ddileu' (o dan amgylchiadau penodol), a
- Cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Dyma fanylion cyswllt yr ICO: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.org.uk

## Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych gwestiynau eraill ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r data a roddwyd fel rhan o'r arolwg hwn neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, cysylltwch ag:

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Enw: Tîm Cyflawni Caffael Masnachol
Cyfeiriad e-bost: commercialprocurement.peoplecorporate@gov.wales

Rhif ffôn: 0300 025 5642

Dyma fanylion cyswllt Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru:

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ. E-bost: SwyddogDiogeluData@llyw.cymru.